***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 774 (Cy. 169) (C. 47)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 3.40 p.m. ar 5 Gorffennaf 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 170(4)(b)(vi) o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022([1]).

**Enwi**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2022.

**Darpariaeth sy'n dod i rym ar 28 Gorffennaf 2022**

**2.** Daw adran 48 (yswiriant: dileu gofynion) o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 i rym ar 28 Gorffennaf 2022.

*Julie James*
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

Am 3.40 p.m. ar 5 Gorffennaf 2022

(**1**) 2022 p. 30.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Y Rheoliadau hyn yw'r rheoliadau cychwyn cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 ("y Ddeddf"). Maent yn dwyn i rym adran 48 o'r Ddeddf o ran Cymru.

Mae adran 48 o'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau i adrannau 47 (rhoi a derbyn hysbysiad cychwynnol), 51A(2) (amrywio gwaith y mae'r hysbysiad cychwynnol yn ymwneud ag ef) a 56 (cofnodi a darparu gwybodaeth) o Ddeddf Adeiladu 1984. Effaith y diwygiadau hyn yw dileu gofynion yswiriant ar gyfer arolygwyr cymeradwy.

## NODIADAU AM Y RHEOLIADAU CYCHWYN CYNHARACH

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Reoliadau Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Rheoliadau hyn.

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 132 (at ddibenion gwneud rheoliadau) | 28 Mai 2022 | 2022/561 |
| Adran 2(2) ac Atodlen 1 | 28 Mehefin 2022 | 2022/561 |
| Adran 3 (yn gymwys yn Lloegr yn unig) | 28 Mehefin 2022 | 2022/561 |
| Adrannau 17 a 18 (yn gymwys yn Lloegr yn unig) | 28 Mehefin 2022 | 2022/561 |
| Adran 31 (i'r graddau y mae'n ymwneud ag adrannau 120D i 120H o Ddeddf Adeiladu 1984, adeiladau risg uwch: Lloegr) | 28 Mehefin 2022 | 2022/561 |
| Adran 41 (o ran Lloegr yn unig) | 28 Mehefin 2022 | 2022/561 |
| Adran 55 (yn rhannol ac o ran Lloegr yn unig) | 28 Mehefin 2022 | 2022/561 |
| Adran 57 (o ran Lloegr yn unig) | 28 Mehefin 2022 | 2022/561 |
| Adrannau 130 a 131 | 28 Mehefin 2022 | 2022/561 |
| Adran 132 (at yr holl ddibenion sy'n weddill) | 28 Mehefin 2022 | 2022/561 |
| Adran 48 (o ran Lloegr yn unig) | 28 Gorffennaf 2022 | 2022/561 |
| Adran 160 (yn gymwys yn Lloegr yn unig) | 1 Hydref 2022 | 2022/561 |